Gwerthuswr Allanol
Hawlio Heddwch: Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod

BRIFF O'R GWAITH SY'N OFYNNOL

Drwy gontract gan:	Academi Heddwch Cymru drwy Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)
Cyswllt yn WCIA	Rheolwr Datblygu Prosiect Academi Heddwch Cymru
Fframiau amser	Bydd Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod yn rhedeg rhwng Ebrill 2023 a Hydref 2024. Hoffem benodi gwerthuswr allanol i wneud archwiliad o'n systemau a'n prosesau gwerthuso mewnol, ac o'n hymarfer cyn belled, ac i gefnogi'r tîm a'i bartneriaid i ganfod ffyrdd o ddyfnhau ein heffaith yn y cyfnod sy'n weddill o'r prosiect. Yna, hoffem gomisiynu'r gwaith o lunio adroddiad Gwerthuso Allanol ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri i'w gyflwyno erbyn diwedd mis Hydref 2024.
Briff	Darparu cefnogaeth werthuso allanol i dîm Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod a'i Bartneriaeth gydol oes y prosiect; ac ysgrifennu adroddiad gwerthuso allanol ar ddiwedd y prosiect i'w gyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri. Bydd hyn yn cynnwys: • Adolygu'r gwaith a wnaed rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 • Pwyso a mesur y cynnydd at y canlyniadau ansoddol a meintiol, fel ei gilydd – gan ganolbwyntio'n benodol ar y newid yn ymddygiad a chred y cyfranogwyr – a helpu'r tîm i ddysgu er mwyn dyfnhau'r effaith. • Gwneud archwiliad o'r systemau Monitro a Gwerthuso mewnol cyfredol a'u heffeithiolrwydd; dylid creu adroddiad ar yr archwiliad a'i gyflwyno i Bwyllgor Partneriaeth Deiseb Heddwch y Menywod, Grŵp Llywio'r Academi Heddwch a Bwrdd Ymddiriedolwyr WCIA. • Cytuno ar fformat yr adroddiad a'r dull gwerthuso gyda'r partneriaid a Chronfa Treftadaeth y Loteri. • Cynnal cyfweliadau gyda'r unigolion sy'n cyfranogi yn y Prosiect (DS gan fod llawer ohonynt yn siaradwyr Cymraeg, byddai bod yn rhugl yn y Gymraeg o fantais): - Partneriaid (gan ganolbwyntio'n benodol ar feithrin gallu) - Gwirfoddolwyr (gan ganolbwyntio'n benodol ar feithrin sgiliau)

- Cyfranogwyr gweithgar (gan ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd y gyfranogaeth)
- Athrawon a phlant ysgol (gan ganolbwyntio'n benodol ar ddysgu)
- 'Cyrhaeddiad' drwy'r cyfryngau / cymdeithasol ayb (gan ganolbwyntio'n benodol ar newid mewn agwedd a chred)

- Ysgrifennu adroddiad gwerthuso terfynol drafft a gwahodd/ymateb i newidiadau a gynigir gan y Partneriaid.
- Cwblhau adroddiad gwerthuso.

Byddwn eisiau rhannu'r adroddiad gwerthuso (a'r adroddiad interim) gyda'r cyrff ariannu, y rhanddeiliaid a'r cyhoedd, felly dylai gael ei ysgrifennu mewn arddull hawdd ei ddarllen.

Gwerth y contract: Mehefin 24: 5 diwrnod @ oddeutu £300 / dydd = £1500
Medi 24: 25 diwrnod @ oddeutu £300 / dydd = £7500
Mae **cyfanswm y gyllideb** (£9,000) yn cynnwys treuliau a chostau teithio.

Gair am Academi Heddwch Cymru

Nod Academi Heddwch yw ymestyn y traddodiad cadarn a geir yng Nghymru o greu a hyrwyddo heddwch, drwy ddatblygu a chydlynu **cymuned o ymchwilwyr** annibynnol mewn meysydd cysylltiedig.

Caiff Academi Heddwch ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i **roi lle blaenllaw i heddwch ar agenda genedlaethol Cymru**, a hefyd ar y **llwyfan rhyngwladol** drwy weithio gyda'r rhwydwaith byd-eang presennol o sefydliadau heddwch.

Nodau cyffredinol Academi Heddwch yw sicrhau'r canlynol:

- bod Cymru yn gwneud cyfraniad a gydnabyddir yn rhyngwladol i ymarfer ac ymchwil i heddwch.
- y ceir lle blaenllaw i heddwch yn holl strategaethau a pholisïau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- bod gan y cyhoedd gysylltiad cadarn ag ymarfer ac ymchwil i heddwch yng Nghymru

Cynhelir Academi Heddwch Cymru gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA). Elusen sy'n ysbrydoli pobl yng Nghymru i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu arnynt yw WCIA. Gweledigaeth WCIA yw bod pawb yng Nghymru yn cyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

Hawlio Heddwch/ Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod:

Yn 1923, fe wnaeth menywod yng Nghymru drefnu ymgyrch dros heddwch byd nas gwelwyd ei bath o'r blaen. Fe wnaeth 390,296 o fenywod lofnodi'r hyn a elwid yn 'ddeiseb goffa' drwy Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru, yn galw ar America i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd a oedd newydd ei sefydlu, a'i harwain. Cludwyd y ddeiseb i America mewn cist dderw a chyflwynwyd y Datganiad Heddwch i fenywod America gan griw o fenywod o Gymru dan arweiniad Annie Jane Hughes-Griffiths. Yn ddiweddar, mae'r Amgueddfa Genedlaethol yn Washington, wedi rhoddi'r gist a'i chynnwys i ddwylo Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Dros y 18 mis diwethaf, bu partneriaeth o sefydliadau, Partneriaeth Deiseb Heddwch y Menywod, yn sefydlu Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod/Hawlio Heddwch i nodi canmlwyddiant Deiseb Heddwch y Menywod yn 2023-24 ac i ddathlu'r menywod o Gymru a fu'n ymgyrchu dros heddwch. Bydd y Prosiect yn dwyn ynghyd y Ddeiseb goffa, y gist a llofnodion y ddeiseb yng Nghymru ar gyfer y canmlwyddiant, er mwyn i'r Apêl Heddwch wreiddiol ysbrydoli cenhedlaeth newydd o gydwladolwyr, gan hybu heddwch yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a gan feithrin cysylltiadau o'r newydd rhwng Cymru a Gogledd America.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymddiried y gwaith o gludo, gwarchod, catalogio, digideiddio a thrawsgrifio'r ddeiseb i'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae Partneriaeth Deiseb Heddwch y Menywod, gyda chefnogaeth Academi Heddwch Cymru, wedi cael cyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i'w cynorthwyo i wneud gweithgareddau ymgysylltu a gwaith maes yn y gymuned. Mae'r gwaith maes yn y gymuned yn hanfodol i alluogi trigolion Cymru a thu hwnt i fod yn rhan o'r stori hynod hon a'i deall yn well; fe all hefyd sicrhau bod pobl yn gallu bod yn rhan o'r gwaith trawsgrifio i gofnodi enwau'r holl fenywod a lofnododd y ddeiseb ar gyfer yr archifau cenedlaethol. Drwy weithio gyda'n Partneriaid a gyda chymunedau ar draws Cymru, ein nod yw:

1. Nodi canmlwyddiant Deiseb Heddwch y Menywod yn 2023/24 drwy weithio gyda phartneriaid yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
2. Ysbrydoli cenhedlaeth newydd o heddychwyr i weithio i gyflawni'r weledigaeth o Gymru fel Cenedl Heddwch ac o fyd heb ryfeloedd
3. Cefnogi ac ennyn diddordeb yn y gwaith trawsgrifio cyfunol, sylweddol a fydd yn galluogi pobl o bob cwr o'r byd i weld Deiseb Heddwch y Menywod fel rhan allweddol o dreftadaeth heddwch Cymru er mwyn ein cenhedlaeth ni heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.
4. Cynorthwyo Partneriaeth Deiseb Heddwch y Menywod i drefnu a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau dehongli hanesyddol, diwylliannol, dwyieithog a diddorol i ddathlu'r canmlwyddiant gan ennyn diddordeb cymunedau amrywiol.
5. Cynorthwyo'r gwaith o greu deunyddiau addysgol ac annog ysgolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau pobl ifanc i gymryd rhan yn nigwyddiadau a gweithgareddau'r canmlwyddiant.

Drwy gyfrwng Academi Heddwch Cymru fel partner cydlynu, mae WCIA wedi cytuno i gynnal Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod ar ran y Bartneriaeth sy'n cynnwys:

- Academi Heddwch Cymru (partner cydlynu)
- Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)
- Heddwch Nain Mam-gu
- Archif Menywod Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Cymru
- Y Senedd
- Llywodraeth Cymru
- Prifysgolion
- Amgueddfa Genedlaethol America, Sefydliad y Smithsonian

Pwy ydyn ni'n chwilio amdano ar gyfer y swydd Gwerthuswr Allanol

*Rydych **CHI** wedi monitro a gwerthuso prosiectau gwirfoddoli a chymunedol trydydd sector yn llwyddiannus yn y gorffennol. Mae gennych ffocws cadarn ar y defnyddwyr, a hynny gan eich bod yn gyfarwydd iawn â grwpiau iaith Gymraeg, prosiectau treftadaeth a / neu ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae gennych gariad at dreftadaeth a diwylliant Cymru, a gallwch ennyn angerdd mewn pobl eraill er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith orau posibl ar heddwch a chydwladoldeb.*

Y Brosesu Ymgeisio

- Cyflwynwch eich CV ynghyd ag e-bost i gyflwyno eich hun at bethansianjones@wcia.org.uk erbyn 3 Mehefin. Yn y llythyr cyflwyno, eglurwch yn gryno:
    - Pa brofiad perthnasol sydd gennych er mwyn cyflawni'r dasg.
    - Sut byddech chi'n mynd ati i gyflawni'r dasg o fewn yr amserlen(ni) a'r gyllideb a nodir.
    - Unrhyw fethodolegau penodol y byddech yn eu cynnig.

- Gwerth am arian: awgrymiadau ar sut i sicrhau y bydd y gwaith gwerthuso'n cael y budd gorau posibl.
- 2 ganolwr yr ydych chi wedi gwneud gwaith tebyg iddynt, ac y byddech yn fodlon inni gysylltu â nhw.

- Fe allem ofyn am gyfarfod dilynol i drafod eich cynnig ymhellach
- Bwriadwn wneud penderfyniad erbyn 10 Mehefin.